

# Testun Ffocws Cyfarwyddyd

Defnyddiwch TFC i ddehongli cwestiynau traethawd trwy ofyn:

- Beth yw maes testun y cwestiwn?
- Beth mae'r cwestiwn yn gofyn i mi ffocws arno o fewn y testun hwn?
- Sut ddylwn i wneud hyn - beth yw'r gair/geiriau cyfarwyddo?

# Meddyliwch am TFC




## Rhowch gynnig ar TFC

## Testun Ffocws Cyfarwyddyd

- Trafodwch fflora'r cyfnod carbonifferaidd gan gyfeirio at esblygiad ffyla planhigion mawr.

- Amlinellwch y gwahanol fathau o lygredd arfordirol ac ystyriwch effaith un math ar ansawdd dyfroedd arfordirol a thraethau a thrafodwch y dulliau y gellid eu defnyddio i fonitro a rheoli llygredd arfordirol.

- Disgrifiwch sut mae Ed Dorn a/neu Gary Snider yn defnyddio agwedd faterol ac ysbrydol at America yn eu barddoniaeth.

**Rhowch gynnig arno:**

- Gwerthuswch yn feirniadol y farn bod globaleiddio yn creu un diwylliant byd-eang unffurf ac yn dinistrio amrywiaeth ddiwylliannol.

Fiona Zinovieff (2016), wedi ei addasu o waith Liz DuPre (2012), Canolfan Dyslecsia Miles

# Sut gall TFC wella eich gwaith?

Mae llawer o fyfyrwyr yn methu â chael y marciau uchaf oherwydd nad ydynt wedi dehongli ac ateb y cwestiwn a osodwyd yn briodol. Gweler dehongliadau gwahanol fyfyrwyr o gwestiwn (a'r marc a gawsant) isod.

**Cwestiwn enghreifftiol:**

Cymharwch a chyferbynnwch ganlyniadau dallineb a byddardod i ddatblygiad iaith.

- Ysgrifennwch bopeth rydych yn ei wybod am ddallineb, byddardod, datblygiad plant a datblygiad iaith. Peidiwch â dod i gasgliad pendant gyda chyfiawnhad.

  *(Ateb trydydd dosbarth - yn glynu wrth y testun dan sylw, ond ddim yn canolbwyntio nac yn dilyn y cyfarwyddiadau)*

- Rhestrwch rai o nodweddion dallineb a byddardod. Rhestrwch rai o'r canlyniadau i ddatblygiad, yn cynnwys y rhai i ddatblygiad iaith.

  *(Ateb ail ddosbarth is (2:2) - yn glynu wrth y testun dan sylw, rhywfaint o ganolbwyntio ar syniadau perthnasol ond ddim yn dilyn y cyfarwyddiadau)*

- Nodwch ganlyniadau dallineb a byddardod i ddatblygiad iaith. Cymharwch a chyferbynnwch y canlyniadau hyn.

  *(Ateb ail ddosbarth uwch (2:1) - yn glynu wrth y testun dan sylw, canolbwyntio da, wedi dilyn y cyfarwyddiadau)*

- Nodwch ganlyniadau dallineb a byddardod i ddatblygiad iaith. Cymharwch a chyferbynnwch y canlyniadau hyn, gan ddod i gasgliadau am natur datblygiad iaith, a chan gyfeirio at sut mae eich casgliadau yn cyd-fynd â damcaniaethau am ddatblygiad iaith.

  *(Ateb dosbarth cyntaf - yn glynu wrth y testun dan sylw, canolbwyntio ar y testun dan sylw a'r cyfarwyddiadau)*

  ***D.S.*** *Mae atebion dosbarth cyntaf fel arfer yn gofyn bod myfyriwr yn mynd yr ail filltir - trwy ddangos beth mae'r syniadau yn ei olygu yng ngoleuni damcaniaethau/barn gyffredinol, a rhoi tystiolaeth o ddarllen ychwanegol y tu hwnt i'r darlithoedd.*